




National Audit Office



Gweinyddu treth incwm Cymru 2019-20

Cyllid a Thollau EM

ADRODDIAD

gan y Rheolwr ac
Archwilydd Cyffredinol

**SESIWN 2019–2021
21 IONAWR 2021
HC 1073**

Ni yw corff gwarchod gwariant cyhoeddus annibynnol y DU.

Rydym yn cefnogi Senedd y DU wrth ddwyn y llywodraeth i gyfrif ac rydym yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy ein harchwiliadau o ansawdd uchel.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn craffu ar wariant cyhoeddus ar gyfer Senedd y DU ac mae'n annibynnol ar lywodraeth a'r gwasanaeth sifil. Rydym yn helpu Senedd y DU i ddwyn y llywodraeth i gyfrif ac rydym yn defnyddio ein dealltwriaeth i helpu pobl sy'n rheoli cyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Gareth Davies, yn un o Swyddogion Tŷ'r Cyffredin ac yn arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Rydym yn archwilio cyfrifon ariannol adrannau a chyrff cyhoeddus eraill. Rydym hefyd yn archwilio ac yn adrodd ar werth am arian y ffordd y mae arian cyhoeddus wedi cael ei wario.

Yn 2019, arweiniodd gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol at effaith ariannol gadarnhaol drwy gostau is, gwasanaethau a ddarperir yn well, neu fuddiannau eraill i ddinasyddion gwerth £1.1 biliwn.



National Audit Office

Gweinyddu treth incwm Cymru 2019-20

Cyllid a Thollau EM


Adroddiad gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Gorchynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin
i gael ei brintio ar 20 Ionawr 2021

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Adran 6 o Ddeddf
Archwilio Cenedlaethol 1983 i'w gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin
yn unol ag Adran 9 o'r Ddeddf

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag
Adran 116K o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i
diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
8 Ionawr 2021



Mae'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon yn ddarostyngedig i hawlfraint y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Gellir copio neu atgynhyrchu'r deunydd at ddibenion anfasnachol yn unig, sef atgenhedlu ar gyfer ymchwil, astudiaeth breifat neu gylchrediad mewnol cyfyngedig o fewn sefydliad at ddibenion adolygu.

Mae copio at ddibenion anfasnachol yn ddarostyngedig i gydnabyddiaeth ddigonol, wedi'i hatgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn cyd-destun cararweiniol, gyda'r deunydd. I atgynhyrchu deunydd hawlfraint NAO am unrhyw ddefnydd arall, rhaid i chi gysylltu â copyright@nao.org.uk. Dywedwch wrthym pwy ydych chi, y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli (os o gwbl) a sut a pham rydych chi'n dymuno defnyddio ein deunydd. Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt llawn: enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost.

Sylwer na ellir atgynhyrchu'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon er budd masnachol heb ganiatâd penodol ac uniongyrchol yr NAO a bod yr NAO yn cadw'r hawl i ddilyn achosion torri hawlfraint yn erbyn unigolion neu gwmnïau sy'n atgynhyrchu deunydd ar gyfer ennill masnachol heb ein caniatâd.

Roedd dolenni i wefannau allanol yn ddilys ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Nid yw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrifol am ddilysrwydd y dolenni yn y dyfodol.

Cynnwys

Ffeithiau allweddol 4

Crynodeb 5

Rhan Un

Treth incwm a gesglir oddi
wrth drethdalwyr Cymreig 11

Rhan Dau

Gweinyddu cyfraddau treth
incwm Cymru: 16

Rhan Tri

Costau 27

Atodiad Un

Ein dull archwilio 29

Mae'r adroddiad hwn ar gael
ar wefan y Swyddfa Archwilio
Genedlaethol yn www.nao.org.uk


If you need a version of this
report in an alternative format
for accessibility reasons, or
any of the figures in a different
format, contact the NAO at
enquiries@nao.org.uk


Roedd tîm astudiaeth y Swyddfa
Archwilio Genedlaethol yn
cynnwys:

Bradley Easton, Ben Rodin
and Ben Thompson, under the
direction of Darren Stewart

Am ragor o wybodaeth am y
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
cysylltwch â:

National Audit Office
Press Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

 020 7798 7400

 www.nao.org.uk

 @NAOorguk

Ffeithiau allweddol

1.4
miliwn

Trethdalwyr Cymreig
yn 2019-20.

£2,008
miliwn

Amcangyfrif Cyllid a Thollau
EM (CThEM) o refeniw treth
incwm Cymru yn 2019-20.

£1.4 miliwn costau rhoi'r prosiect ar waith yn 2019-20

£0.6 miliwn costau gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru yn 2019-20

Crynodeb

Cyflwyniad

Treth incwm Cymru

1 Cafodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ei diwygio gan Ddeddf Cymru 2014 er mwyn rhoi'r pŵer i Senedd Cymru bennu'r cyfraddau treth incwm i Gymru a fydd yn gymwys i incwm trethdalwyr Cymreig nad yw'n incwm cynilion na difidendau o'r flwyddyn dreth 2019-20 ymlaen.

2 O fis Ebrill 2019, cafodd cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol y Deyrnas Unedig (y DU) eu gostwng 10 pwynt canrannol ac roedd gan Senedd Cymru y pŵer i gymhwyso cyfraddau ar gyfer Cymru. Bydd swm cyfraddau gostyngol y DU a chyfraddau newydd Cymru yn pennu'r gyfradd dreth gyffredinol a delir gan drethdalwyr Cymreig (**Ffigur 1** drosodd). Pennodd Senedd Cymru gyfraddau treth incwm Cymru ar 10% ym mhob band, sy'n cyfateb i gyfraddau'r DU i bob diben, sef 20% (cyfradd sylfaenol), 40% (cyfradd uwch) a 45% (cyfradd ychwanegol).

Rolau a chyfrifoldebau


3 Cyllid a Thollau EM (CThem) sy'n gyfrifol am weinyddu cyfraddau treth incwm Cymru a bydd yn parhau i gasglu treth incwm Cymru fel rhan o system dreth y DU. Bydd CThem yn talu'r refeniw a gesglir mewn perthynas â chyfraddau treth incwm Cymru i Drysorlys EM yn yr un ffordd ag y gwna ar gyfer pob math arall o dderbyniadau treth. Trysorlys EM sy'n gyfrifol am dalu treth incwm Cymru a gasglwyd i Lywodraeth Cymru.

4 Yn dilyn diwedd pob blwyddyn dreth, mae CThem yn llunio amcangyfrif dros dro o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn honno. Cyfrifir yr alldro terfynol yn y flwyddyn ganlynol pan fydd CThem wedi cael mwy o wybodaeth gan drethdalwyr a chyflogwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r amcangyfrif cyntaf o dreth incwm Cymru ar gyfer 2019-20, yn dilyn rhoi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith ym mis Ebrill 2019. Disgwylir i'r alldro ar gyfer 2019-20 gael ei gyhoeddi gan CThem yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020-21.

Ffigur 1

Cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20

Mae cyfraddau treth incwm y DU yn cael eu gostwng 10c fesul £1 i bob diben a'u disodli gan gyfraddau treth incwm Cymru

**Nodiadau**

- 1 Ar gyfer pob band treth (sylfaenol, uwch ac ychwanegol), mae Llywodraeth y DU yn lleihau swm y dreth y bydd yn ei chasglu 10 ceiniog fesul £1 ac mae Llywodraeth Cymru yn pennu cyfradd treth incwm Cymru i'w hychwanegu at gyfraddau treth y DU.
- 2 Ar gyfer 2019-20, mae Llywodraeth Cymru yn pennu pob un o gyfraddau treth incwm Cymru ar 10 ceiniog, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymreig yn talu swm sy'n cyfateb o ran treth i gyfradd y DU ar gyfer pob band treth.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cylch gwaith y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

5 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- digonolrwydd unrhyw reolau a gweithdrefnau y mae CThEM wedi eu rhoi ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, er mwyn sicrhau y caiff treth incwm a godir ar gyfraddau a bennir o dan y darpariaethau hynny eu hasesu a'u casglu'n briodol;
- a gydymffurfir â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a ddygir i gyfrif gan CThEM sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei phriodoli i benderfyniad ar gyfraddau i Gymru;
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-delir gan Lywodraeth Cymru i CThEM fel treuliau gweinyddol.

6 Dyma ein trydydd adroddiad a baratowyd ar sail y cyfrifoldebau hyn. Mae'n ystyried:

- Amcangyfrif CThEM o refeniw treth incwm 2019-20 a briodolwyd i Gymru a'n barn am y fethodoleg a ddefnyddiwyd (Rhan Un);
- rheolaethau allweddol a weithredwyd gan CThEM wrth asesu a chasglu treth incwm (Rhan Dau);
- Y dull a fabwysiadwyd gan CThEM wrth asesu a lliniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion treth Cymru (Rhan Dau);
- y gost o weinyddu treth incwm Cymru - rydym yn rhoi sicrwydd ynghylch a yw'r symiau yn gywir ac yn deg yng nghyd-destun y costau yr eir iddynt gan CThEM (Rhan Tri).

7 Nodir ein dull a'n methodoleg archwilio yn Atodiad Un.

Canfyddiadau allweddol ac argymhellion

Amcangyfrif treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20

8 Mae CThEM wedi amcangyfrif mai £2,008 miliwn yw refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r amcangyfrif yn gyson â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan CThEM wrth amcangyfrif refeniw treth incwm yr Alban. Ar gyfer 2019-20, mae'r cyfrifiad yn cynnwys gostyngiad o £4 miliwn i adlewyrchu amcangyfrif CThEM o effaith economaidd COVID-19 ar arian trethdalwyr, a allai arwain at fethu ag adennill symiau sy'n ddyledus i CThEM. Mae CThEM yn disgwyl cyfrifo'r refeniw treth incwm terfynol ar gyfer 2019-20 y gellir ei briodoli i Gymru, yr 'alldro', yn 2021 (paragraffau 1.2 i 1.9).

9 Mae effaith COVID-19 ar alldroeon yn y dyfodol ar gyfer 2019-20 a 2020-21 eto i'w phennu. Mae derbyniadau treth ledled y DU wedi gostwng ers dechrau'r pandemig. Mae gweithgareddau cydymffurfio a chasglu dyledion CThEM hefyd wedi lleihau o ganlyniad i effaith COVID-19 ar gapasiti'r Adran, mesurau a gymerwyd i roi mwy o hyblygrwydd i drethdalwyr wrth wneud taliadau a'r gallu i ymgysylltu'n ffisegol â busnesau ac unigolion. Bydd angen i CThEM ystyried a oes angen mireinio'r gwaith o gyfrifo alldroeon ac amcangyfrifon yn y dyfodol ymhellach, wrth i fwy o ddata ddod ar gael, er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd a achosir gan COVID-19 yn well (paragraffau 1.10 ac 1.11).

Gweinyddu treth incwm Cymru

10 Mae gan CThEM reolau a gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau yr asesis ac y cesglir treth incwm Cymru yn briodol ac y cydymffurfir â'r rheolau hynny. Mae ein gwaith ar faterion treth datganoledig yn adeiladu ar ein hasesiad ehangach o reolau a gweithdrefnau CThEM, a gwblheir fel rhan o'n harchwiliad blynyddol o CThEM. Daethom i'r casgliad bod CThEM wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu refeniw, ei gasglu a'i ddyrannu'n briodol, a'u bod yn cael eu gweithredu'n briodol (paragraffau 2.1 i 2.11).

11 Nid yw CThEM wedi cynnal cymhariaeth rhwng ei gofnod o statws preswyllo trethdalwyr Cymreig a data trydydd parti ers mis Tachwedd 2018. Yr her allweddol o hyd wrth weinyddu'r system yw cynnal cofnod cywir a chyflawn o gyfeiriadau cartref trethdalwyr Cymreig er mwyn pennu preswyliaeth yn gywir. Mae CThEM yn dibynnu ar drethdalwyr yn ei hysbysu am newid cyfeiriad, er nad oes gofyniad cyfreithiol iddynt wneud hynny. Ym mis Tachwedd 2018, gwnaeth CThEM gymharu cofnod o gyfeiriadau â data trydydd parti. Dyma brif ffynhonnell sicrwydd CThEM fod y wybodaeth sydd ganddo yn gywir ac yn gyflawn, er na chynhaliwyd yr ymarfer yn 2019-20. Mae CThEM yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd â Llywodraeth Cymru ynghylch pa mor aml y dylai'r gwaith hwn gael ei wneud, ac mae disgwyl i'r ymarfer nesaf gael ei gynnal yn 2020-21 (paragraff 2.22).

12 Ym mis Mai 2020, nododd CThEM 43,000 o drethdalwyr Cymreig lle roedd cyflogwyr a darparwyr pensiynau wedi cymhwyso'r cod treth anghywir. Ym mis Mai 2019, nododd CThEM 198,000 o drethdalwyr Cymreig lle roedd cyflogwyr a darparwyr pensiynau wedi cymhwyso'r cod treth anghywir. Roedd nifer yr achosion ym mis Mai 2019 yn uwch nag yr oedd ym mis Ebrill 2020 oherwydd problemau gyda'r feddalwedd a ddefnyddir gan rai cyflogwyr i brosesu eu cyflogres, yn ogystal â gwallau gan gyflogwyr. Mae CThEM wedi gweithio gyda chyflogwyr i ddatrys y problemau hyn, er bod gwaith yn mynd rhagddo i dargedu'r cyflogwyr hynny a'r darparwyr pensiynau sy'n parhau i gymhwyso'r rhagddodiad 'C' yn anghywir. Ar ddiwedd y flwyddyn dreth mae CThEM yn cysoni'r hyn y mae pob trethdalwr wedi ei dalu mewn treth yn erbyn yr hyn y cred y dylent fod wedi ei dalu. Mae CThEM yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo'r atebolrwydd treth y dylai pob trethdalwr Cymreig ei dalu. Felly, nid effeithir ar yr alldro refeniw ar gyfer Cymru pan na fydd y rhagddodiad 'C' mewn cod treth unigolyn wedi ei weithredu'n gywir gan gyflogwr (paragraffau 2.23 i 2.28).

13 Mae CThEM yn parhau i asesu'r risg o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â chyfraddau treth incwm Cymru fel risg isel iawn. Yn 2019-20, lluniodd CThEM Ddarlun Strategol o Risg i Gymru am y tro cyntaf. Ym marn CThEM, y prif feysydd o risg i dreth incwm Cymru yw risgiau i gydymffurfiaeth yr eir i'r afael â nhw ar lefel y DU gyfan. Ni nodwyd unrhyw risgiau yn y Darlun Strategol o Risg sy'n benodol i Gymru. Mae CThEM yn parhau i asesu risgiau i gydymffurfiaeth sy'n deillio o elfennau sy'n benodol i Gymru fel rhai isel iawn gan fod cyfraddau treth yn aros yr un peth â chyfradd y DU. Os bydd unrhyw wahaniaeth yn y dyfodol, yna efallai y bydd angen newid y dull gweithredu hwn (paragraffau 2.31 a 2.32).

14 Gwnaeth CThEM gyfrifo enillion cydymffurfio uwch o £90 miliwn yn ymwneud â Chymru ar gyfer 2017-18, y data diweddaraf sydd ar gael. Mae CThEM yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio drwy enillion cydymffurfio: ei amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol y mae wedi ei gynhyrchu ym marn CThEM, a'r colledion refeniw y mae wedi'u hatal. Cyfrifir y ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfran o ffigur y DU gyfan, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru i feintoli'r risgiau. Nid yw CThEM yn ystyried amrywiadau daearyddol yn lefel y risgiau i gydymffurfiaeth, na llwyddiant cymharol gweithgarwch cydymffurfio yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU (paragraff 2.33).

15 Argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) y dylai CThEM ystyried buddiannau a heriau bwch treth penodol i Gymru, y gwahaniaeth rhwng swm y dreth y dylid ei dalu a'r hyn a delir mewn gwirionedd. Byddai hyn yn fesur defnyddiol i ddeall pa mor llwyddiannus yw CThEM wrth weinyddu treth incwm Cymru. Disgwylir i CThEM ymateb i argymhelliad y Pwyllgor erbyn Ionawr 2021 (paragraff 2.34).

16 Mae CThEM wedi rhoi trefniadau llywodraethu priodol ar waith i oruchwylio'r gwaith o roi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith a'u gweinyddu. Er mwyn rheoli'r gwaith o roi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith, sefydlodd CThEM strwythur llywodraethu prosiect yn ei raglen datganoli a newid ehangach. Ym mis Chwefror 2020, addaswyd y strwythur llywodraethu i adlewyrchu'r ffaith bod prosiect cyfraddau treth incwm Cymru wedi cael ei roi ar waith a bod y gwaith o weinyddu'r system wedi dod yn rhan o weithgareddau arferol CThEM. Disgwylir i'r gwaith o roi prosiect cyfraddau treth incwm Cymru ar waith gael ei gau'n ffurfiol yn 2021 (paragraffau 2.37 i 2.40).

Costau

17 Yn 2019-20, aeth CThEM i gostau o £2 miliwn wrth weithredu cyfraddau treth incwm Cymru ac ailgododd dâl am hynny ar Lywodraeth Cymru. Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEM yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, rydym wedi dod i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru (paragraffau 3.1 i 3.7).

Argymhelliad

18 Dylai CThEM ystyried sut mae'n adlewyrchu effaith COVID-19 wrth gyfrifo'r alldro a'r amcangyfrif o ran refeniw ar gyfer blynyddoedd i ddod, gan gynnwys ystyried pa ddata ychwanegol allai fod ar gael i fireinio'r cyfrifiad ac adlewyrchu'r ansicrwydd a achosir gan y pandemig yn well.

Rhan Un

Treth incwm a gesglir oddi wrth drethdalwyr Cymreig

1.1 Mae Rhan 1 o'r adroddiad hwn yn cwmpasu amcangyfrif refeniw treth incwm Cymru Cyllid a Thollau EM ar gyfer 2019-20. Mae hyn yn cynnwys:

- Amcangyfrif CThEM o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20 gan gynnwys nodweddion a chyfyngiadau methodoleg CThEM (paragraffau 1.2 i 1.11);
- trosolwg o dreth incwm Cymru yn 2020-21 a blynyddoedd i ddod (paragraff 1.12).

Amcangyfrif treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20

1.2 Mae CThEM yn amcangyfrif y bydd yn casglu £2,008 miliwn o dreth incwm oddi wrth drethdalwyr Cymreig ar gyfer 2019-20.¹ Caiff yr alldro terfynol ar gyfer blwyddyn 2019-20 ei gyfrifo ym mis Mai 2021 a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEM ar gyfer 2020-21.

Amcangyfrif refeniw CThEM ar gyfer 2019-20.

1.3 Mae methodoleg CThEM ar gyfer amcangyfrif refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20 yn seiliedig ar ei Arolwg o Incwm Personol,² sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Pennir cyfran ganrannol Cymru o atebolrwydd treth incwm cyffredinol y DU drwy ddadansoddi'r data mewn model sy'n ailadrodd system treth incwm y DU, sef y Model Treth Personol. Yna caiff cyfran Cymru ei chymhwyso at atebolrwydd treth cyfan y DU, a gyfrifir drwy gyfuno derbyniadau Talu wrth Ennill (TWE) gwirioneddol ar gyfer 2019-20 ag amcangyfrif o atebolrwydd Hunanasesiad ar gyfer 2019-20 (**Ffigur 2** drosodd).

1.4 Mae'r fethodoleg a ddefnyddir gan CThEM i gyfrifo amcangyfrif refeniw 2019-20 yn gyson â'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r amcangyfrif cyfatebol ar gyfer treth incwm yr Alban, yn ogystal â'r fethodoleg a ddefnyddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ragweld derbyniadau treth incwm ar gyfer Cymru a'r DU gyfan.


¹ Cyllid a Thollau EM, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, HC 891, Tachwedd 2020.

² Mae'r Arolwg o Incwm Personol yn cynnwys swm yr incwm sy'n asesadwy i dreth incwm ynghyd â gwybodaeth arall sy'n ymwneud â threthdalwr. Mae data'r arolwg yn cynnwys tua 733,000 o drethdalwyr Cymreig ac fe'u cafwyd o systemau lluosog CThEM, ac maent yn cynnwys trethdalwyr o TWE a Hunanasesiad.

Ffigur 2

Dull o gyfrifo'r amcangyfrif o reffeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20

Mae'r amcangyfrif o reffeniw yn dibynnu ar ddata sampl a ddata sampl a dosraniad o amcangyfrifon ledled y DU i gyfrifo cyfran Cymru o reffeniw treth incwm



Nodiadau

- 1 Mae Arolwg blynyddol CThEM o Incwm Personol yn sampl o ddata trethdalwyr y DU o systemau treth TWE a Hunanasesiad. Mae'r Model Treth Personol yn rhoi amcanestyniad o'r canlynol ar gyfer atebolrwydd treth incwm yn 2019-20, gan addasu ar gyfer cyfraddau gwahanol twf poblogaeth a ffactorau economaidd, megis codiad cyflog, i gyfrifo cyfran Cymru.
- 2 Incwm nad yw'n gynnwys na difidendau yw cyfanswm treth incwm y DU ar gyfer 2019-20.
- 3 Daw data TWE oddi wrth system Gwybodaeth Amser Real CThEM. Daw'r data Hunanasesiad o Fodel Hunanasesiad CThEM.
- 4 Effaith addasu COVID-19 yw lleihau cyfran Cymru o dreth incwm £4 miliwn.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata a chyfrifiadau Cyllid a Thollau EM

1.5 Mae Arolwg blynyddol o Incwm Personol CThEM yn sampl o tua 1.5% o ddata trethdalwyr y DU o systemau treth TWE a Hunanasesiad CThEM. Ni all y broses hon ddechrau nes bod y cyflwyniadau Hunanasesiad wedi'u derbyn, sef tua 10 mis ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Oherwydd y llinell amser hon, daw'r data a ddefnyddir yn yr Arolwg diweddaraf o Incwm Personol o flwyddyn dreth 2017-18.

1.6 Mae'r Model Treth Personol yn defnyddio data a addaswyd i adlewyrchu newidiadau demograffig a pholisi y disgwyliwyd iddynt ddigwydd rhwng 2017-18 a 2019-20 neu y gwyddys eu bod wedi digwydd. Mae'n modelu'r canlyniad ar gyfer atebolrwydd treth incwm yn 2019-20, gan addasu ar gyfer cyfraddau gwahanol twf poblogaeth a ffactorau economaidd, megis codiad cyflog, i gyfrifo cyfran Cymru o atebolrwydd treth incwm y DU.

1.7 Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod dull gweithredu CThEM yn rhesymol. Fodd bynnag, mae lle i wella cywirdeb y cyfrifiad ac mae cyfyngiadau yn ymwneud â'r model ei hun:

- mae defnyddio data sampl yn creu ansicrwydd samplu yn yr amcangyfrif o refeniw, y cyfrifir rhan Cymru ohono fel canran;
- mae'r fethodoleg yn cyfuno cyfrifiad atebolrwydd TWE a Hunanasesiad ar gyfer y DU fel nad yw'r swm a ddosrennir i Gymru yn adlewyrchu cyfrannau gwahanol pob math o drethdalwr rhwng Cymru a gweddill y DU;
- mae'r data a ddefnyddir ar gyfer TWE yn cynnwys pob math o incwm ac nid ydynt yn eithrio treth o incwm cynilion nac incwm difidendau;
- yn seiliedig ar ddata hanesyddol, mae CThEM yn tybio bod derbyniadau a gesglir yn ystod 2019-20 yn cynrychioli 99% o gyfanswm yr atebolrwydd treth ar gyfer y flwyddyn. Nid yw hyn yn ystyried y newid mewn nifer a gwerth tandaliadau a gordaliadau, a gyfrifir ar ôl diwedd y flwyddyn dreth fel rhan o brosesau cysoni CThEM.

1.8 Mae'r cyfrifiad cyfatebol ar gyfer treth incwm yr Alban yn cynnwys addasiad ychwanegol i'r amcangyfrif yn seiliedig ar gymharu amcangyfrifon y gorffennol ag alldroeon hanesyddol. Nid yw hyn yn bosibl ar gyfer amcangyfrif Cymru o refeniw gan mai 2019-20 yw'r flwyddyn gyntaf y mae cyfraddau treth incwm Cymru wedi gweithredu ac nid oes data alldro ar gael eto. Wrth i CThEM bennu'r alldro ar gyfer treth incwm Cymru dros amser, mae lle iddo ddefnyddio'r wybodaeth hon i fireinio ei amcangyfrifon o refeniw treth incwm Cymru yn y dyfodol.

1.9 Gwnaeth CThEM addasiad ychwanegol i leihau'r amcangyfrif £4 miliwn i adlewyrchu effaith bosibl COVID-19 ar y gallu i gasglu refeniw treth sy'n ddyledus ar ddiwedd 2019-20. Defnyddiodd asesiad CThEM ffynonellau amrywiol o ddata economaidd rhagamcanol, er enghraifft, y nifer amcangyfrifedig o achosion o ansolfedd a all godi o ganlyniad i COVID-19. Yna cymhwyswyd cyfran Cymru o atebolrwydd treth incwm cyffredinol y DU er mwyn pennu'r swm sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r fethodoleg ar gyfer addasu yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau canlynol;

- fe'i seilir ar amcangyfrif o'r effaith gyffredinol ar dderbyniadau treth, gydag amcangyfrif pellach o'r gyfran sy'n ymwneud â threth incwm;
- mae'n tybio bod effaith COVID-19 ar y gallu i gasglu treth incwm yr un peth ledled y DU gyfan ac nad yw'n cyfrif am unrhyw amrywiadau daearyddol posibl;
- mae'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr amcangyfrif yn dibynnu ar ragolygon o gyflyrau economaidd yn y dyfodol, er enghraifft, mewn perthynas â chyfraddau ansolfedd, sydd yn y bôn yn ansicr.

Effaith COVID-19 ar yr alldro a'r amcangyfrif o ran refeniw

1.10 Mae COVID-19 yn cael cryn effaith ar yr economi ac, felly, ar dderbyniadau o drethi, ac ar gasglu'r derbyniadau hynny. Nid yw effaith COVID-19 wedi ei phennu eto, ond mae'r ffactorau canlynol yn debygol o effeithio ar alldroeon ac amcangyfrifon yn y dyfodol o dreth incwm Cymru:

- Ledled y DU, rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, roedd derbyniadau treth o dreth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar lefel is o gymharu â'r un cyfnod yn 2019, er bod derbyniadau ym mis Gorffennaf 2020 a mis Awst 2020 ychydig yn fwy na'r rhai ym mis Gorffennaf a mis Awst 2019. Gwnaeth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ragweld ym mis Tachwedd 2020 y bydd cyfanswm y derbyniadau ar gyfer refeniw treth ledled y DU yn gostwng £57 biliwn yn 2020-21 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.³
- Gwnaeth CThEM ostwng nifer yr achosion cydymffurfio newydd a ddechreuodd. Ledled y DU, ym misoedd Ebrill a Mai 2020, agorodd CThEM tua thraean o nifer yr achosion cydymffurfio a agorwyd ganddo ar yr un adeg yn 2019. Gyda llawer o'i staff yn gweithio gartref, mae cyfyngiadau ar deithio a chadw pellter cymdeithasol wedi effeithio ar allu CThEM i ymweld â chwsmeriaid ac mae staff eraill wedi cael eu hailneilltuo i gefnogi mesurau COVID-19.
- Gwnaeth CThEM hefyd leihau ei weithgarwch casglu dyledion ac, yn dilyn dechrau'r pandemig, ni chynhaliodd ymgyrchoedd rhagweithiol gyda busnesau a threthdalwyr i gasglu trethi oedd yn ddyledus, er bod rhai gweithgareddau casglu dyledion wedi aildechrau nawr, gan ganolbwyntio ar y cwsmeriaid hynny y mae COVID-19 wedi effeithio leiaf arnynt.

3 Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, *Economic and fiscal outlook*, CP 318, Tachwedd 2020.

1.11 Bydd angen i CThEM ystyried a oes angen mireinio'r gwaith o gyfrifo alldroeon ac amcangyfrifon yn y dyfodol ymhellach, wrth i fwy o ddata ddod ar gael, er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd a achosir gan COVID-19 yn well.

Treth incwm Cymru yn 2020-21 a blynyddoedd i ddod

1.12 Caiff yr alldro refeniw ar gyfer 2019-20 ei gyfrifo yn 2021 a chaiff alldro newydd ei gyfrifo ym mhob un o'r blynyddoedd canlynol. Mae CThEM wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer alldro refeniw treth incwm Cymru, y cytunodd Bwrdd Llywodraethu Cyfraddau Treth Incwm Cymru arno'n ffurfiol ym mis Awst 2020. Byddwn yn ystyried yr alldro refeniw ar gyfer 2019-20 fel rhan o'n hadroddiad nesaf.

Rhan Dau

Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru:

2.1 Mae Rhan Dau o'r adroddiad hwn yn cwmpasu:

- Prosesau allweddol Cyllid a Thollau EM (CThEM) wrth weinyddu'r system treth incwm a'n dull o gael sicrwydd arnynt (paragraffau 2.2 i 2.16);
- gweithdrefnau a ddefnyddir i nodi a chynnal cofnod cyflawn a chywir o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig (paragraffau 2.17 i 2.30);
- gweithgarwch gan CThEM i nodi risgiau i gydymffurfiaeth ac ymateb iddynt (paragraffau 2.31 i 2.36);
- trefniadau llywodraethu ar gyfer gweinyddu treth incwm Cymru yn barhaus (paragraffau 2.37 i 2.40).

2.2 Mae proses CThEM o weinyddu treth incwm yn defnyddio'r un systemau p'un a yw'r dreth yn cael ei derbyn gan drethdalwyr Cymreig neu drethdalwr sy'n preswyllo yng ngweddill y DU. Mae CThEM yn gweithredu rhai rheolau a gweithdrefnau ychwanegol sy'n benodol i Gymru ac rydym yn asesu'r rhain yn fanylach isod. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldeb CThEM i weinyddu treth incwm i drethdalwyr Cymreig mewn ffordd sy'n cyfateb i'r gwasanaeth a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.⁴

2.3 O dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921 mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol eisoes yn gyfrifol am ystyried digonolrwydd y systemau y mae CThEM wedi eu rhoi ar waith i asesu a chasglu treth yn y DU, gan gynnwys treth incwm. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad (yr Adroddiad Safonol),⁵ ochr yn ochr ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEM, sy'n nodi ein casgliadau yn hyn o beth. Yn ein Hadroddiad Safonol ar gyfer 2019-20, daethom i'r casgliad bod CThEM wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu refferniw, ei gasglu a'i ddyrannu'n briodol, a'u bod yn cael eu gweithredu'n briodol.

2.4 I gefnogi casgliadau'r adroddiad, caiff ein profion ledled y DU eu hymestyn i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau penodol a achosir gan ddatganoli. Rydym hefyd yn cynnal gweithdrefnau penodol yn edrych ar weithgareddau glanhau cyfeiriadau a chydymffurfiaeth â threth ehangach i lywio ein hasesiad o gyflawnrwydd a chywirdeb amcangyfrifon treth incwm Cymru CThEM.

⁴ Cyllid a Thollau EM, *Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru gan CThEM*, 26 Mehefin 2019.

⁵ Adroddiad gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar Gyfrifon Cyllid a Thollau EM 2019-20.

2.5 Ar ôl cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn ar faterion treth datganoledig, rydym yn fodlon bod gan CThEM reolau a gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau yr asesir ac y cesglir treth incwm Cymru yn briodol ac y cydymffurfir â hwy. Wrth ddod i gasgliadau ar y rheolau a'r gweithdrefnau hyn, rydym hefyd wedi archwilio sawl elfen arall o weinyddiaeth dreth ddatganoledig, gan gynnwys y gwaith parhaus o gadw cofnodion trethdalwyr Cymreig, nodi ac ymateb i risgiau o gydymffurfiaeth â threthi datganoledig a chynnydd y prosiect o ryddhau treth yn ei darddiad.

Y system treth incwm

2.6 Mae system CThEM ar gyfer casglu treth incwm yn gyson ledled y DU. Yn dibynnu ar y math o incwm y mae unigolyn yn ei gael, caiff treth incwm ei hasesu a'i chasglu drwy ddiwydiadau gan y cyflogwr o enillion o dan Dalu wrth Ennill (TWE), drwy ffurflen Hunanasesiad a gyflwynir gan y trethdalwr, neu drwy'r ddau.

2.7 Mae i'r prosesau TWE a Hunanasesiad egwyddorion cyffredin, er eu bod yn defnyddio systemau TG a ffynonellau data gwahanol er mwyn asesu a chasglu treth incwm. Mae **Ffigur 3** drosodd yn nodi'r egwyddorion hyn ac yn disgrifio'r prif brosesau ar gyfer pob ffrwd treth incwm.

Sicrwydd ynghylch prosesu treth incwm

2.8 Mae ein rhaglen flynyddol o waith archwilio mewn perthynas â CThEM yn cynnwys gweithdrefnau sy'n rhoi sicrwydd ynghylch y rheolaethau prosesu treth allweddol. Gellir rhannu'r rheolaethau hyn yn ddau gategori'n fras:


- rheolaethau system awtomataidd o ran ymdrin â data, eu storio a'u prosesu;
- rheolaethau busnes allweddol sy'n cynnwys lefel uchel o awtomatiaeth ond sy'n gymhleth.

2.9 Mae CThEM yn cwblhau sawl cam o'r profion sicrwydd ar reolaethau busnes allweddol er mwyn cadarnhau gweithrediad y system ar ôl i'r rheolau busnes gael eu diweddarau bob blwyddyn er mwyn adlewyrchu cyfraddau treth, trothwyon a lwfansau sy'n newid ar gyfer y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Fel rhan o'n harchwiliad, rydym yn gwerthuso cwmpas y profion hyn ac yn ail-wneud elfennau o'r gwaith er mwyn cadarnhau casgliadau CThEM. Mae'r prosesau allweddol yn TWE yn cynnwys:

- cysoni trethdalwyr TWE bob blwyddyn er mwyn cadarnhau'r dreth sy'n ddyledus ar enillion a chyfrifo unrhyw achosion o ordalu neu dandalu treth yn seiliedig ar y wlad y preswylir ynddi;
- rhoi codau treth ar gyfer trethdalwyr TWE bob blwyddyn sy'n cynnwys gwybodaeth am breswyliaeth er mwyn sicrhau bod cyflogwyr yn didynnu treth o dan reolau treth y wlad gywir.

Ffigur 3 Y system treth incwm bresennol yn y DU

Mae'r prosesau Talu wrth Ennill (TWE) a Hunanasesiad yn rhannu egwyddorion cyffredin o ran asesu a chasglu treth incwm



Nodiadau

- 1 Nid yw prosesau TWE a Hunanasesiad yn digwydd ar yr un pryd. Caiff TWE ei brosesu yn ystod y flwyddyn dreth a'i gysoni ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Ni chaff ffurfienni Hunanasesiad eu cyflwyno tan fis Ionawr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth.
- 2 Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, mae proses gysoni CThEM yn cyfrifo'r atebolrwydd treth incwm ar gyfer pob trethdalwr gan ddefnyddio'r holl odata sydd ar gael. Caiff yr atebolrwydd a gyfrifwyd ei gymharu â'r symiau a ddiwyddwyd yn eu tarddiad neu a gasglwyd oddi wrth trethdalwyr yn uniongyrchol i bennu p'un a gasglwyd y swm cywir o dreth.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o brosesau Cyllid a Thollau EM

2.10 Cymhwysir prosesau tebyg at bob ffurflen Hunanasesiad unigol ar ôl iddi gael ei derbyn gan CThEM.

Treth incwm ddatganoledig

2.11 Dim ond o ran y rheolau busnes y mae'r system yn eu cymhwyso wrth gwblhau atebolrwydd treth a'r cyfrifiadau cod treth y mae'r broses o weinyddu trethi datganoledig yn wahanol i brosesau'r DU. Mae'r rheolau ar gyfer trethdalwyr Cymreig fel a ganlyn:

- Mae'r system yn cadarnhau statws preswyllo'r unigolyn a lle y nodwyd bod unigolyn yn drethdalwr Cymreig mae'n cymhwyso'r rhagddodiad cod treth 'C'. Mae hyn yn rhoi cyfarwyddyd i gyflogwyr gasglu treth o dan gyfraddau treth Cymru. Lle nad yw unigolyn yn preswyllo yng Nghymru mwyach tynnir y rhagddodiad 'C'.
- Lle y nodwyd bod unigolyn yn drethdalwr Cymreig, cymhwysir cyfraddau treth Cymru at yr incwm a nodwyd wrth gyfrifo'r atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol.
- Os nodwyd bod unigolyn yn drethdalwr Cymreig a'i fod wedi'i gofrestru ar gynllun TWE, mae'r system yn defnyddio cyfraddau treth incwm Cymru i gyfrifo cod treth newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Dengys **Ffigur 4** drosodd lle mae gwahaniaethu o'r fath yn digwydd yn y system treth incwm.

Gweithgarwch parhaus yn ymwneud â phrosiect treth incwm Cymru

2.12 Gwnaeth CThEM roi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith ar 6 Ebrill 2019 fel y cynlluniwyd. Yn ystod 2019-20, gwnaeth CThEM newid y ffordd y mae trethdalwyr yn cyflwyno ffurflenni Hunanasesiad ar-lein er mwyn eu galluogi i nodi eu bod yn preswyllo yng Nghymru. Hefyd, cyflwynwyd prosesau pellach ar gyfer gweinyddu rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn mewn perthynas â threthdalwyr Cymreig.


Ffurflen Dreth Ar-lein ar gyfer Hunanasesiad

2.13 Gwnaeth prosiect y Ffurflen Dreth Ar-lein ar gyfer Hunanasesiad gynnwys dangosydd preswyliaeth mewn ffurflenni Hunanasesiad digidol a chafodd hyn ei gyflwyno'n llwyddiannus ym mis Ebrill 2020. Mae ffurflenni Hunanasesiad Ar-lein nawr yn cynnwys blwch gwirio er mwyn i'r trethdalwr nodi a oeddent yn preswyllo yng Nghymru. Pan gyflwynir ffurflen gan drethdalwr Cymreig sydd â statws preswyllo gwahanol i'r hyn a ddelir gan CThEM, caiff hyn ei nodi gan systemau CThEM fel anghysondeb ac anfonir hysbysiad at y trethdalwr yn gofyn iddo gadarnhau neu ddiweddarau ei gyfeiriad. Os na weithredir ar hyn, bydd CThEM yn cyfrifo'r atebolrwydd i dalu treth incwm yn seiliedig ar y statws preswyllo a ddelir ar ei systemau.

Ffigur 4

Gwahaniaethau yn system treth incwm bresennol y DU

Mae'r rheolau busnes wedi'u llunio i brosesu treth incwm gan ddefnyddio'r cyfraddau a'r trothwyon sy'n gymwys i statws preswyllo trethdalwyr



Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o brosesau Cyllid a Thollau EM

Rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn

2.14 Mae'n bwysig bod trethdalwyr Cymreig yn cael eu hadnabod o fewn pob cynllun pensiwn fel y caiff rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn ei ddyrannu'n gywir. Mae gweinyddwyr pensiwn yn hawlio rhyddhad treth yn y tarddiad ar ran eu haelodau ac yn ychwanegu hyn at y cyfraniadau a wnaed. Mae'r prosiect Rhyddhad yn y Tarddiad a gynhaliwyd gan CThEM yn cyflwyno cadarnhad awtomatig o statws preswyllo aelodau o gynllun pensiwn er mwyn sicrhau y cymhwysir y rhyddhad cywir yn y tarddiad gan gynlluniau pensiwn. O dan y prosiect hwn mae rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn yn parhau i gael eu cymhwysu ar y gyfradd sylfaenol o 20% i bob trethdalwr. Gall trethdalwyr Cymreig sy'n talu treth ar gyfradd uwch nag 20% hawlio'r rhyddhad treth sy'n weddill drwy ffurflen Hunanasesiad neu drwy gysylltu â CThEM.

2.15 Er mwyn gweinyddu rhyddhad yn ei darddiad, mae CThEM yn gofyn i bob darparwr gyflwyno adroddiad blynyddol, gan restru cyfraniadau pob aelod yn ystod y flwyddyn dreth flaenorol. Mae systemau CThEM yn olrhain aelodau'r cynllun yn awtomatig ac yn eu paru â chyfeiriadau a ddelir i nodi trethdalwyr Cymreig. Yna caiff Adroddiad ar Hysbysiad Blynyddol o Breswyliaeth ei anfon at bob darparwr pensiwn.

2.16 Roedd CThEM eisoes wedi datblygu'r weithdrefn ar gyfer cymhwysu rhyddhad treth yn ei darddiad mewn perthynas â threthdalwyr yr Alban. Ychwanegwyd Cymru at y fframwaith presennol yn 2019-20, a chynhaliwyd y camau gweithredu olaf ar yr un pryd, a dosrannwyd y costau rhwng y priod lywodraethau.

Y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

2.17 Mae trethdalwr Cymreig yn rhywun sy'n atebol am dalu treth ac y mae ei brif breswylfa yn ystod y flwyddyn dreth yng Nghymru. Tybir bod Seneddwyr Cymru hefyd yn drethdalwyr Cymreig. Cynnal cofnodion cywir a chyflawn o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig yw'r brif her o hyd i CThEM wrth weinyddu treth incwm Cymru. Mae CThEM wedi cyfrifo mai 1.4 miliwn yw nifer y trethdalwyr Cymreig.⁶

2.18 Mae gan CThEM sawl ffynhonnell gwybodaeth am newid cyfeiriad. Mae CThEM yn dibynnu'n bennaf ar drethdalwyr yn rhoi gwybod iddo am unrhyw newid mewn cyfeiriad yn brydlon, er nad oes gofyniad cyfreithiol i drethdalwyr wneud hynny. Mae CThEM hefyd yn cael rhywfaint o wybodaeth am gyfeiriadau o ffynonellau eraill, megis cyflogwyr. Fodd bynnag, nid yw'n ofyniad gorfodol i gyflogwyr ddarparu diweddariadau pan fydd cyfeiriadau cyflogeion yn newid ac, felly, ni all CThEM asesu cywirdeb na chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarperir.

2.19 Er mwyn sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei gasglu oddi wrth unigolion a'i ddyrannu i Lywodraeth Cymru, mae'n hanfodol bod gwybodaeth am gyfeiriadau yn gywir. Mae CThEM wedi rhoi sawl proses sicrwydd ar waith i gynnal cyflawnrwydd a chywirdeb y data cyfeiriadau a ddefnyddir i nodi trethdalwyr Cymreig (**Ffigur 5** drosodd).

Sganiau codau post

2.20 Mae CThEM yn cael rhestr o godau post gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) bob chwarter. Caiff y rhestr o godau post a dderbynnir gan SYG ei chymharu â'r rhai a ddelir gan CThEM eisoes. Lle y nodir codau post newydd, mae CThEM hefyd yn ychwanegu'r rhain at y rhestr o godau post Cymreig hysbys. Yna mae CThEM yn cynnal proses ddilysu fewnol i gadarnhau bod y codau post newydd wedi cael eu cymhwysu'n gywir ar systemau CThEM.

2.21 Mae CThEM yn sganio cofnodion trethdalwyr i nodi codau post sydd ar goll neu annilys a fyddai'n arwain at gymhwysu statws preswyllo anghywir. Cyflawnwyd hyn ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2019. Roedd disgwyl i'r ymarfer cyfatebol gael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2020 ond bu oedi o ganlyniad i bwysau ar CThEM o ran adnoddau ar gyfer COVID-19. Mae CThEM wrthi'n gwneud y gwaith hwn, a'r bwriad yw y bydd cyfeiriadau'n cael eu cywiro cyn yr ymarfer cod treth blyneddol ar ddechrau 2021. Os na chwblheir y sganiau cyn i'r codau treth gael eu rhoi i gyflogwyr, mae risg na fydd y codau treth yn nodi'n gywir mai trethdalwyr Cymreig ydynt. Byddwn yn gwerthuso ac yn adrodd ar y broses hon fel rhan o'n gwaith yn 2020-21.

⁶ Cyllid a Thollau EM, *Income tax liabilities statistics: tax year 2017 to 2018 to tax year 2020 to 2021*, Cyllid a Thollau EM, Mehefin 2020, Tabl 2.2, Nifer y talwyr treth incwm yn ôl gwlad.

Ffigur 5

Gweithgarwch sicrwydd ynghylch y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

Mae Cyllid a Thollau EM yn cynnal nifer o weithgareddau sicrwydd a gynlluniwyd i gynnal cyflawnrwydd a chywirdeb sylfaen dreth Cymru

Gweithgarwch sicrwydd	Diben	Canlyniadau
Rheolaethau sy'n sicrhau bod preswyliaeth yng Nghymru yn cael ei phennu'n gywir gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddelir gan CThEM:		
Sgan cod post newydd	Mae cymharu rhestr CThEM o godau post Cymru â data oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn sicrhau bod rhestr CThEM yn gyfredol.	Derbynnir data ar godau post bob chwarter oddi wrth SYG. Ychwanegwyd 575 o godau post newydd yn 2019-20.
Codau post trawsffiniol	Mae systemau CThEM yn nodi newidiadau i gyfeiriadau pan fydd y cyfeiriad newydd mewn cod post sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae CThEM yn adolygu'r achosion hyn er mwyn sicrhau bod y statws preswyllo cywir yn cael ei bennu.	Mae'r broses hon wedi bod ar waith ers mis Hydref 2019. Yn 2019-20, adolygwyd 79 o achosion trawsffiniol â llaw o dan y broses hon.
Glanhau cyfeiriadau	Sganiau o gofnodion trethdalwyr i nodi codau post sydd ar goll neu'n annilys a fyddai'n arwain at gymhwyso statws preswyllo anghywir.	Nododd y sganiau a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019 o gofnodion trethdalwyr Cymreig gyfanswm o 17,371 o godau post a oedd ar goll. ¹ O blith y rhain, cafodd 2,047 o achosion eu diweddarau am fod ganddynt gofnod o gyflogaeth bresennol. Ni chafodd y cofnodion a oedd yn weddill eu diweddarau am nad oedd cyflogaeth wedi'i nodi. Gwnaeth CThEM hefyd nodi ac adolygu 2,119 o gofnodion trethdalwyr a oedd yn cynnwys cod post annilys.
Rheolaethau i nodi cyfeiriadau anghywir a ddelir gan CThEM:		
Cymharu data trydydd parti	Cymharu cofnodion cyfeiriadau trethdalwyr â ffynonellau data trydydd parti i nodi achosion lle mae cofnodion CThEM yn anghyson â data trydydd parti.	Ni chynhaliwyd y gweithgarwch sicrwydd hwn yn 2019-20. Mae CThEM yn bwriadu cynnal yr ymarfer cymharu data nesaf yn 2021.
Rheolaethau i fonitro gweithrediad TWE gan gyflogwyr:		
Cod Treth sganiau cymharu	Cymharu codau treth mewn cyflwyniadau TWE â chofnod trethdalwyr CThEM, i nodi achosion lle mae'r cyflogwr yn cymhwyso cod treth gwahanol i CThEM. ²	Amrywiodd nifer yr achosion lle na chafodd rhagddodiaid 'C' eu cymhwyso at godau treth, er bod niferoedd wedi gostwng yn ystod y flwyddyn. Ym mis Mai 2019, nodwyd 198,344 o achosion a gostyngodd hyn i 42,623 ym mis Ebrill 2020.

Nodiadau

- 1 Gall codau post annilys a nodwyd gael eu cywiro neu eu gosod â llaw fel rhai Cymreig os na fydd yn bosibl pennu'r cod post cywir o'r cyfeiriad.
- 2 Daw'r symiau o ddadansoddiad Cyllid a Thollau EM o sganiau codau treth misol ac maent yn dangos nifer y codau treth lle nad oedd y rhagddodiad 'C' Cymreig yn cael ei gymhwyso'n gywir, a byddai'r cod treth wedi bod yn gywir fel arall.

Ffynhonnell: Crynodeb y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o weithgareddau Cyllid a Thollau EM

Ymarfer cymharu data trydydd parti

2.22 Mae CThEM yn cymharu ei gofnodion â data trydydd parti er mwyn cael sicrwydd ynghylch cywirdeb ei gofnodion cyfeiriadau ac er mwyn sicrhau bod cofnodion trethdalwyr yn gyfredol. Ni chynhaliwyd yr ymarfer cymharu data trydydd parti yn 2019-20. Mae CThEM yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynghylch pa mor aml y dylai'r gwaith hwn gael ei gynnal, er ein bod yn deall bod CThEM yn cynnig cynnal yr ymarfer cymharu data trydydd parti bob dwy flynedd o 2020-21, a disgwylir i Fwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru gytuno ar hyn ym mis Ionawr 2021.

Gweinyddu codau treth Cymru

2.23 Os na fydd cyflogwr yn cymhwyso'r rhagddodiad 'C' at god treth cyflogai, bydd yn didynnu treth ar gyfradd y DU. Ar ddiwedd y flwyddyn dreth mae CThEM yn cysoni'r hyn y mae pob trethdalwr wedi ei dalu mewn treth yn erbyn yr hyn y cred y dylent fod wedi ei dalu. Mae CThEM yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo'r atebolrwydd treth y dylai pob trethdalwr Cymreig ei dalu. Felly, nid effeithir ar yr alldro refeniw ar gyfer Cymru pan na fydd y rhagddodiad 'C' mewn cod treth unigolyn wedi ei weithredu'n gywir gan gyflogwr.

2.24 Bob mis mae CThEM yn cymharu codau treth mewn cyflwyniadau TWE â chofnod trethdalwyr, i nodi achosion lle mae'r cyflogwr yn gweithredu cod treth gwahanol i CThEM. Mae nifer yr achosion lle na weithredwyd y rhagddodiad 'C' yn amrywio drwy'r flwyddyn, er bod y niferoedd wedi gostwng. Ym mis Mai 2019, nododd CThEM 198,344 o gofnodion trethdalwyr Cymreig lle nad oedd cyflogwr yn gweithredu cod treth o fewn y rhagddodiad 'C'. Ym mis Ebrill 2020, roedd y nifer wedi gostwng i 42,623 o achosion.

2.25 Roedd nifer yr achosion ym mis Mai 2019 yn uwch nag yr oedd ym mis Ebrill 2020 oherwydd problemau gyda'r feddalwedd a ddefnyddir gan rai cyflogwyr i brosesu eu cyflogres, yn ogystal â gwallau gan gyflogwyr. Mae CThEM yn cynnal gweithgarwch cydymffurfio rheolaidd â chyflogwyr i leihau nifer y codau treth â'r rhagddodiad anghywir oherwydd gwall cyflogwr. Pan fydd CThEM yn gweld nad yw cyflogwr yn gweithredu'r cod treth cywir, bydd yn anfon hysbysiad P6 yn gofyn i'r cyflogwr ddiweddar cod treth cyflogai.

2.26 Nododd dadansoddiad CThEM fod 50% o'r achosion a nodwyd ym mis Ebrill 2020 yn ymwneud â threthdalwyr yr oedd eu cod treth wedi cael ei gymhwyso'n anghywir ym mis Mehefin 2019. Mae CThEM yn mynd ati i dargedu'r cyflogwyr hynny sy'n gwneud gwallau cyson gan weithio gyda nhw i roi'r cod treth cywir ar waith. Nid yw CThEM wedi pennu targed ar gyfer pa mor isel y byddai'n rhaid i nifer y rhagddodiad 'C' sydd ar goll fod cyn y gallai ddweud bod ei weithgarwch cydymffurfio wedi bod yn llwyddiannus.

2.27 Mae'n bosibl y gallai cyflogwr gymhwyso rhagddodiad 'S' yr Alban yn anghywir yn hytrach na'r un ar gyfer Cymru, sef 'C'. Ym mis Ebrill 2019, bu 26,922 o achosion o'r rhagddodiad 'S' yn cael ei gymhwyso'n anghywir at godau treth trigolion Cymreig. Cododd hyn oherwydd yr un broblem gyda'r feddalwedd a olygodd nad oedd y rhagddodiad 'C' wedi cael ei gymhwyso'n gywir. Ym mis Mehefin 2019, bu 139 o achosion o gyflogwyr yn defnyddio rhagddodiad yr Alban yn lle'r un ar gyfer Cymru, sef 'C'. Erbyn mis Ebrill 2020 roedd y nifer wedi gostwng i 53.

2.28 Pan fydd rhagddodiad yr Alban wedi cael ei gymhwyso'n anghywir at god treth trethdalwr Cymreig, mae risg y didynnir y swm anghywir o dreth drwy TWE oherwydd gwahaniaeth yng nghyfraddau treth incwm yr Alban. Mewn sefyllfa fel hon mae'n rhaid i drethdalwyr wneud taliadau ychwanegol mewn blynyddoedd i ddod i wrthbwysu tandaliad, neu aros am ad-daliad gan CThEM am unrhyw symiau a ordalwyd.

Seneddwyr Cymru

2.29 Tybir yn awtomatig fod seneddwr Cymru yn drethdalwr Cymreig mewn unrhyw flwyddyn dreth tra byddant yn eu swydd.⁷ Mae hyn yn gymwys i'r 60 o aelodau etholedig Senedd Cymru ynghyd â'r 40 o ASau yn San Steffan sy'n cynrychioli etholaeth yng Nghymru a'r pedwar ASE sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru cyn i'r DU ymadael â'r UE.

2.30 Nid yw cofnodion yn ymwneud â Seneddwr Cymru yn cael eu prosesu gan ddefnyddio rheolau busnes arferol CThEM. Mae CThEM wedi rhoi proses â llaw ar waith i nodi cofnodion seneddwr Cymru er mwyn sicrhau y cânt eu cofnodi'n drethdalwr Cymreig ni waeth ble maent yn preswyllo. Mae hyn yn gofyn i gyflogwyr roi gwybodaeth angenrheidiol iddynt neu i'r seneddwr eu hunain ei rhoi ac mae'n rhaid ei chwblhau bob blwyddyn. Ym mis Awst 2020, cyflwynwyd newidiadau i'r system a gynlluniwyd i ddileu'r angen i ddiweddarau cofnodion Seneddwr yn flynyddol, a chaiff hyn ei adolygu fel rhan o'n hadroddiad ar gyfer 2020-21.

Asesu risg a gwaith cynllunio o ran cydymffurfiaeth

2.31 Mae CThEM yn cymhwyso dull gweithredu cydymffurfiaeth yn seiliedig ar risg at y broses o gasglu treth incwm Cymru yn yr un ffordd ag y mae'n ei gymhwyso at y broses o gasglu treth incwm oddi wrth drethdalwr yng ngweddill y DU. Mae CThEM yn mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ymhlith trethdalwr drwy'r canlynol:

- hyrwyddo cydymffurfiaeth â chyfraith treth drwy ei hymgorffori yn nyluniad systemau a phrosesau, megis drwy ei gwneud hi'n haws i drethdalwr dalu treth;
- atal achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth cyn iddynt ddigwydd drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael i nodi camgymeriadau, personoli gwasanaethau a chymorth, atal hawliadau twyllodrus, ac awtomeiddio cyfrifiadau;
- ymateb drwy nodi a thargedu'r meysydd lle y gall fod risg o ran treth.⁸

⁷ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014.

⁸ Cyllid a Thollau EM, *Tackling tax avoidance, evasion, and other forms of non-compliance*, Mawrth 2019.

2.32 Noda'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru y dylid llunio Darlun Strategol o Risg i Gymru yn flynyddol er mwyn ystyried risgiau i gydymffurfiaeth sy'n gymwys i Gymru. Ni nodwyd unrhyw risgiau yn y Darlun Strategol o Risg sy'n benodol i Gymru. Ym marn CThEM, y prif feysydd o risg i dreth incwm Cymru yw risgiau i gydymffurfiaeth yr eir i'r afael â nhw ar lefel y DU gyfan. Tybir bod amlygiad Cymru i'r risgiau hyn yn unol â chyfran Cymru o dreth incwm y DU. Mae'r risgiau a nodwyd yn cynnwys:⁹

- unigolion neu fusnesau cofrestredig sy'n hepgor, yn celu neu'n camliwio gwybodaeth yn fwriadol er mwyn lleihau eu hatebolrwydd i dalu treth;
- yr economi gudd, lle na chaiff ffynhonnell gyfan o incwm ei datgan neu lle y caiff ffynhonnell ddatganedig o incwm ei thanddatgan yn fwriadol;
- unigolion sy'n osgoi talu treth, sy'n camfanteisio ar y rheolau treth er mwyn cael mantais treth nad oedd Senedd y DU erioed wedi'i bwriadu.

2.33 Mae CThEM yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio drwy enillion cydymffurfio: ei amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol y mae wedi ei gynhyrchu ym marn CThEM, a'r colledion refeniw y mae wedi'u hatal. Mewn perthynas â'r risgiau a nodwyd yn y Darlun Strategol o Risg, gwnaeth CThEM gyfrifo enillion cydymffurfio o £90 miliwn yn ymwneud â Chymru ar gyfer 2017-18, y data diweddaraf sydd ar gael. Gwnaeth CThEM hefyd gyfrifo mai cyfran Cymru o golledion net o'r risgiau a nodwyd yn y Darlun Strategol o Risg oedd £440 miliwn. Cyfrifir y ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfran o ffigur y DU, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru i feintio'r risgiau. Nid yw CThEM yn ystyried amrywiadau daearyddol yn lefel y risgiau i gydymffurfiaeth, na llwyddiant cymharol gweithgarwch cydymffurfio yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU.

2.34 Y bwlch treth yw'r gwahaniaeth rhwng swm y dreth y dylid ei dalu a'r hyn a delir mewn gwirionedd.¹⁰ Argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) y dylai CThEM ystyried buddiannau a heriau amcangyfrif bwlch treth penodol i Gymru.¹¹ Byddai hyn yn fesur defnyddiol i ddeall pa mor llwyddiannus yw CThEM wrth weinyddu treth incwm Cymru. Nid yw CThEM wedi ymateb eto i argymhelliad y Pwyllgor, ond disgwylir ymateb ym mis Ionawr 2021.

9 Cylid a Thollau EM, *Measuring tax gaps 2019 edition*, Mehefin 2019.

10 Cylid a Thollau EM, *Measuring tax gaps 2020 edition*, Gorffennaf 2020.

11 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, *Tackling the tax gap*, Twentieth Report of Session 2019–2021, HC 650, Hydref 2020.

2.35 Yn fwy cyffredinol ar gyfer 2019-20, mae CThEM wedi paratoi strategaeth gydymffurfio ar gyfer gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru. Mae CThEM yn parhau i asesu risgiau i gydymffurfiaeth sy'n deillio o elfennau sy'n benodol i Gymru fel rhai isel iawn gan fod cyfraddau treth yn aros yr un peth â chyfradd y DU. Os bydd unrhyw wahaniaeth yn y dyfodol, yna efallai y bydd angen ailystyried y dull gweithredu hwn. Dywedodd CThEM wrthym ei fod wedi sefydlu prosiect i ystyried atebolrwydd trethdalwyr yr Alban a Chymru ac ymddygiad dros amser ac mae'n cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ynghylch pa ddata allai fod yn ddefnyddiol i wneud hyn.

2.36 Ar ôl cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn ar faterion treth datganoledig, rydym yn fodlon bod gan CThEM reolau a gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau yr asesir ac y cesglir treth incwm Cymru yn briodol ac y cydymffurfir â hwy.

Llywodraethu

2.37 Er mwyn rheoli'r gwaith o roi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith, sefydlodd CThEM strwythur llywodraethu prosiect yn ei raglen datganoli a newid ehangach. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Datganoli Treth Incwm Cymru i oruchwylio'r prosiect ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o CThEM a Llywodraeth Cymru. Ceir tystiolaeth o her adeiladol gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn y fforymau hyn.

2.38 Ym mis Chwefror 2020, addaswyd y strwythur llywodraethu i adlewyrchu'r ffaith bod prosiect cyfraddau treth incwm Cymru wedi cael ei roi ar waith a bod y gwaith o weinyddu'r system wedi dod yn rhan o weithgareddau arferol CThEM. Daeth Bwrdd Prosiect Datganoli Treth Incwm Cymru i ben ac fe'i disodlwyd gan Fwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru i oruchwylio'r gwaith parhaus o weinyddu treth incwm Cymru. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o CThEM a Llywodraeth Cymru ac mae'n cwrdd bob chwarter.

2.39 Ar ddechrau 2020, cynhaliodd CThEM adolygiad o'r prosiect i asesu'r gwaith o lywodraethu prosiect, gallu i gyflwyno a chynllunio, yn ogystal â pharodrwydd i'w gynnwys yn llawn o fewn busnes arferol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y prosiect mewn sefyllfa dda i gwblhau'r broses o roi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith yn llwyddiannus. Nododd hefyd fod tîm y prosiect wedi cymryd camau i ddysgu gwersi o'r broses o roi cyfraddau treth incwm yr Alban ar waith.

2.40 Disgwylir i'r prosiect a fydd yn rhoi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith gael ei gau'n ffurfiol yn 2021 ar ôl cyflwyno crynodebau treth blynyddol i drethdalwyr Cymreig. Mae CThEM yn disgwyl cynnal Adolygiad Ôl-weithredol o'r prosiect, y byddwn yn ei ystyried fel rhan o'n hadroddiad ar gyfer 2020-21.

Rhan Tri

Costau

3.1 Mae'r rhan hon yn ystyried costau gweinyddol treth incwm Cymru, ac a yw'r costau hyn yn rhesymol.

3.2 O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyllid a Thollau EM (CThEM) a Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i Llywodraeth Cymru ad-dalu "costau ychwanegol net i CThEM y mae wedi mynd iddynt yn gyfan gwbl ac yn angenrheidiol o ganlyniad i weinyddu pwerau treth incwm Cymru".

3.3 Mae fframwaith ategol yn nodi'r egwyddorion ar gyfer nodi costau ychwanegol net. Mae CThEM yn ailgodi am gostau y gellir eu dilysu'n rhai sy'n ymwneud yn benodol â gweinyddu pwerau treth incwm datganoledig Cymru ac nid costau gweinyddu'r system treth incwm gyffredinol yng Nghymru.

Costau yr aed iddynt yn 2019-20

3.4 Gwnaeth CThEM anfonebu Llywodraeth Cymru am £2 filiwn o gostau yn ymwneud â rhoi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith a'u gweinyddu. O'r swm hwn, roedd £0.6 miliwn yn ymwneud â chostau rhedeg ac £1.4 miliwn yn ymwneud â threuliau rhoi ar waith, gan gynnwys cost systemau a oedd yn angenrheidiol i weinyddu prosiect Rhyddhad yn y Tarddiad.

3.5 Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEM yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, rydym wedi dod i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru.

Costau prosiect hyd yma


3.6 Mae CThEM wedi amcangyfrif bod rhoi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith wedi costio rhwng £8 miliwn a £9 miliwn. Cyfanswm y gwariant hyd yma wrth roi'r prosiect ar waith yw £7.5 miliwn.

3.7 Mae **Ffigur 6** yn rhoi crynodeb o gyfanswm cost rhoi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith a'u gweinyddu.

Ffigur 6

Gwariant gwirioneddol ar brosiectau treth incwm Cymru rhwng 2017-18 a 2019-20

Mae'r gwariant yr aed iddo hyd yma yn ymwneud â chostau rhoi'r prosiect ar waith a'i weithredu



Nodiadau

- 1 Mae'r costau yn ymwneud â phrosiect cyfraddau treth incwm Cymru a'r prosiect rhyddhad yn ei darddiad.
- 2 Caiff costau'n ymwneud â systemau rhyddhad yn y tarddiad eu dosrannu rhwng Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.
- 3 Efallai na fydd ffigurau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata ariannol Cyllid a Thollau EM

Atodiad Un

Ein dull archwilio

1 Mae Adran 116k o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- digonolrwydd unrhyw reolau a gweithdrefnau y mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) wedi eu rhoi ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, er mwyn sicrhau y caiff treth incwm a godir ar gyfraddau a bennir o dan y darpariaethau hynny eu hasesu a'u casglu'n briodol;
- a gydymffurfir â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a ddygir i gyfrif gan CThEM sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei briodoli i benderfyniad ar gyfraddau i Gymru;
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-delir i CThEM fel treuliau gweinyddol.

2 Er mwyn dod i'r casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â'r rheolau a'r gweithdrefnau a weithredir gan CThEM, rydym wedi defnyddio ein gwaith archwilio statudol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEM yn uniongyrchol, gan gynnwys adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar y rheolaethau sy'n cael eu gweithredu yn CThEM dros asesu, casglu a dyrannu treth yn briodol o dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921. Rydym hefyd wedi cwblhau gweithdrefnau archwilio penodol dros reolaethau sy'n berthnasol i'r broses o weinyddu trethi datganoledig.

3 Rydym wedi archwilio'r data, methodolegau, tybiaethau a mecanwaith cyfrifo'r amcangyfrif refeniw ar gyfer 2019-20, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Mae'r gwaith hwn wedi ei gynllunio a'i gwblhau drwy gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) 540 Amcangyfrifon Cyfrifyddu Archwilio a Datgeliadau Cysylltiedig, er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n berthnasol i natur yr amcangyfrifon ac ar lefel ddigon manwl.

4 O ran costau gweinyddu, mae ein casgliad ynglŷn â chywirdeb a thegwch y costau a godwyd ar Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar werthusiad o'r costau yn erbyn manylion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r fframwaith ategol ar gyfer costau y cytunwyd arnynt rhwng y ddau barti. Mae CThEM yn amcangyfrif rhai o'r costau yr aed iddynt o'r data sydd ar gael ar gysylltiadau cwsmeriaid ac amser staff. Yn ystod yr archwiliad cawsom dystiolaeth hefyd fod y ddau barti yn trafod ac yn adolygu cyllidebau a rhagolygon costau yn rheolaidd yn ogystal â chytuno ar y symiau i'w hanfonebu a'u talu.

5 Mae'r holl weithdrefnau archwilio hyn wedi cael eu cynllunio, eu cyflawni a'u hadolygu yn unol â'n gweithdrefnau rheoli ansawdd mewnol ar gyfer gwaith archwilio ariannol.

6 Er mwyn cyflwyno'r ffordd y mae CThEM yn ymdrin â risgiau i gydymffurfiaeth, rydym wedi adolygu, cyhoeddi a dadgyhoeddi dogfennau CThEM ynglŷn â chyfraddau treth incwm Cymru, gan gynnwys dogfennaeth y prosiect, dogfennaeth risg a chydymffurfiaeth a manylion gwaith sicrwydd allweddol y mae CThEM yn ei wneud.

7 Mae'r adolygiad hwn o ddogfennau wedi cael ei ategu gan gyfweiliadau lled-strwythuredig â staff CThEM mewn sawl maes busnes. Gwnaethom hefyd siarad â Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru i lywio ein hasesiad o risg a'n gwaith cynllunio ar gyfer yr adroddiad hwn.

8 Lluniwyd ein canfyddiadau ar ôl dadansoddi tystiolaeth a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2020.

This report has been printed on Pro Digital Silk and contains material sourced from responsibly managed and sustainable forests certified in accordance with the FSC (Forest Stewardship Council).

The wood pulp is totally recyclable and acid-free. Our printers also have full ISO 14001 environmental accreditation, which ensures that they have effective procedures in place to manage waste and practices that may affect the environment.



National Audit Office

Design and Production by NAO External Relations
DP Ref: 007409-001

£10.00

ISBN 978-1-78604-354-2



9 781786 043542